Dewi Williams yn Cerfio a Cherflunio ym Mhentrefelin

Cadair Eisteddfod Gaderiol Môn 1923 a enillwyd gan y Parch. W. E. Penllyn Jones.

Yn 1998, rhoddwyd cryn sylw ar Ynys Môn i gadair eisteddfod draddodiadol a gyflwynwyd i Ganolfan Treftadaeth Cemaes. Dychwelyd ydoedd i'r fan y cychwynnodd oherwydd cadair Eisteddfod Môn 1923, a gynhaliwyd yng Nghemaes ydoedd, a chynigiwyd hi yn wobr am awdl goffa i'r Parchedig Ddr John Williams, Brynsiencyn.

Syr Thomas Jones Amlwch a gyflwynodd y gadair ac enillwyd hi gan y Parch. W. E. Penllyn Jones, a oedd yr adeg hynny yn weinidog gyda'r Annibynwyr yn Hen Golwyn.

Diddordeb y gadair yw ei cherfiwr. Brodor o Wlad Belg ydoedd, o'r enw Emile de Vynck, a derbyniodd ddeunaw gini am ei waith. Yn 1914 yr oedd de Vynck a'i deulu ymhlith grŵp bychan o ffoaduriaid o Wlad Belg y trefnodd Lloyd George loches iddynt yng Nghricieth a'r cyffiniau. Bu de Vynck yn trigo ym Mhentrefelin, rhwng Cricieth a Phorthmadog, am y deg mlynedd olynol.

Ar y gadair gwelir tair gwraig mewn gwisg Gymreig draddodiadol, y Fleur de Lys, a'r arwyddair brenhinol arferol. Ceir cadair gan de Vynck, symlach ei chrefft, yng nghapel Bethel ger Penmorfa. Cyflwynwyd hi yn Eisteddfod Bethel a Phenmorfa 1922, ac mae'n debyg iddi ddod i'r capel flynyddoedd yn ddiweddarach trwy ewyllys cyn-fugail, y Parch. Morris Thomas, a ddyfarnwyd yn fuddugol. Ffaith ddiddorol yw mai ffoadur cyffelyb o wlad Belg o'r enw Eugene Vanfleteren a gerfiodd Gadair Ddu Penbedw.

Yr oedd Lloyd George yn comisiynu de Vynck ar adegau ac arweiniai hyn yn naturiol at archebion gan deuluoedd bonheddig, megis yr Osmond Williams', Castell Deudraeth. Lluniodd de Vynck benddelw plastr o'i noddwr sydd i'w weld hyd heddiw yn Neuadd Goffa Cricieth.

Yn ôl traddodiad, cynorthwywyd y ffoadur i sefydlu ei fusnes, a'i weithdy cerfio dodrefn, ger y ffordd ym Mhentrefelin, gan Constance M. Greaves, gwraig plas y Wern a phriod Richard Methuen Greaves, aelod o'r teulu a reolai chwarel Llechwedd ym Mlaenau Ffestiniog. Adroddir fod Constance Greaves yn gerflunydd pren yn ogystal. Iddi hi y priodolir y sgrin, pulpud a'r border cerfiedig o adnodau o amgylch y nenfwd yn Eglwys Penmorfa, sydd yn dyddio o ddechrau'r 20fed ganrif. Haws tybio ei bod wedi ei chynorthwyo gan y seiri medrus a gyflogid gan yr ystad. Yn iard y plas yr oedd gweithdy i'r seiri ac un peirianyddol a gynhwysai dyrn o'r radd flaenaf o wneuthuriad Holtstaffel, y gellid ei ddefnyddio ar gyfer tyrnio coed a metal.

Y Ddarllenfa, Y Pulpud a'r Sgrin.

Rai blynyddoedd yn ddiweddarach cerfiodd Constance Greaves yr angel hynod, gyda silff fechan ar ei gefn fel darllenfa ar gyfer yr eglwys. Cred disgynnydd i'r teulu mai perthynas o'r un tras bonheddig oedd yr eneth a ddefnyddiwyd fel model. Erys traddodiad cryf yn yr ardal, a haedda fod yn wir, mai merch un o giperiaid yr ystad ydoedd.

Yn ddiweddar, clywais mai'r sgweiar ei hun oedd perchen y dwylo a gerfiwyd gan ei wraig. Buasai yn haws iddo ef na phlentyn eu cadw'n llonydd am y cyfnod angenrheidiol.

Yn 1924 daeth trychineb i ran de Vynck pan aeth ei weithdy yn wenfflam o ganlyniad i ddamwain, pan ddisgynnodd lamp oel a chynnau yr holl sglodion a siafins coed ar y llawr. Ymadawodd ef a'i deulu am eu mamwlad, ac yno y treuliodd weddill ei ddyddiau. Parhaodd ei ferched y cysylltiad gyda chyfeillion ym Mhentrefelin ac ymwelasant â'u hen gartref ar ddechrau'r nawdegau. Bellach bu farw un ferch ac nid yw hanes ei chwaer yn wybyddus.

Y diweddglo delfrydol fyddai cael adrodd fod Emile de Vynck wedi datblygu mewn bri fel cerflunydd a cherfiwr ar gyfer noddwyr eglwysig a bonheddig, ond, ysywaeth ymddengys nad felly y bu. Yn ôl llefarydd o lys-genhadaeth gwlad Belg 'Ymddengys fod de Vynck yn grefftwr ardderchog ond ni wnaeth enw iddo'i hun yn y byd celf.'

(Lluniau: Ifor Pritchard)

Cadair Eisteddfod Gaderiol Bethel ger Penmorfa.